# Cofnodion

## Pwyllgor Craffu ar Berfformiad – Lleoedd a Materion Corfforaethol

| | |
|---|---|
| Dyddiad: | Dydd Iau, 5 Tachwedd 2020 |
| Amser: | 4.00 pm |
| Bresennol: | Cynghorwyr C Evans (Cadeirydd), G Berry, M Whitcutt, I Hayat, J Richards, M Al-Nuaimi, C Ferris and M Kellaway |
| Yn bresennol: | Y Cynghorwyr D Mayer, D Davies ac R Truman, Rhys Cornwall (Pennaeth Pobl a Newid Busnes), Tracy McKim (Pennaeth Polisi, Partneriaethau a Chynnwys), Matthew Cridland (Rheolwr y Gwasanaethau Rheoleiddio – Safonau Masnachol), Rhys Thomas (Rheolwr y Gwasanaethau Rheoliadol – Yr Amgylchedd a'r Gymuned) a Rachael Davies (Rheolwr Adnoddau Dynol a Datblygu Sefydliadol) |

1 **Ymddiheuriadau**

Y Cynghorydd K Critchley a Gareth Price

2 **Datgan diddordeb**

Dim.

3 **Cofnodion y Cyfarfod Diwethaf**

Derbyniwyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 7 Medi 2020 yn gofnod gwir a chywir.

4 **2020/21 Adolygiadau Canol Blwyddyn y Cynllun**

**Y Gyfraith a Rheoleiddio**
Gwahoddedigion

- Y Cynghorydd Ray Truman - yr Aelod Cabinet dros y Gyfraith a Rheoleiddio
- Mathew Cridland - Rheolwr y Gwasanaethau Rheoliadol - Safonau Masnachol)
- Jonathan Keen - Rheolwr y Gwasanaethau Rheoliadol - Yr Amgylchedd a'r Gymuned

Ymddiheurodd yr Aelod Cabinet ar ran Bennaeth y Gyfraith a Rheoleiddio nad oedd yn gallu bod yn bresennol yn y cyfarfod oherwydd salwch. Rhoddodd y Cadeirydd a'r pwyllgor eu dymuniadau gorau am wellhad cyflym. Rhoddwyd trosolwg o'r adroddiad i'r pwyllgor. Dywedwyd bod gwaith y chwe mis cyntaf wedi canolbwyntio ar Covid-19, gan fod portffolio'r Aelod Cabinet yn cwmpasu'r rhan fwyaf o'r gwaith Covid-19 sy'n cael ei wneud. Mae tua 19 o staff wedi'u symud o'u gwaith arferol a'u dargyfeirio i wneud gwaith ar gyfer y gwasanaeth Profi, Olrhain a Diogelu rhanbarthol. Ond o ystyried yr heriau y mae'r gwasanaeth wedi'u hwynebu, bu cyflawniadau mawr.

Dywedodd Rheolwr y Gwasanaethau Rheoliadol wrth y pwyllgor fod mwyafrif helaeth o waith Safonau Masnach ac Iechyd yr Amgylchedd wedi bod yn gysylltiedig â gorfodi Covid-19, yn enwedig o ran busnesau a sicrhau bod yr holl fesurau rhesymol a gofynion ymbellhau cymdeithasol wedi'u bodloni. Mae gwaith gwyliadwriaeth wedi'i ohirio, ond mae'r gwaith twyll fasnachwyr risg uwch wedi parhau ac wedi cael ei reoli i'w gynnal.

Rhoddwyd rhai ffeithiau a ffigurau i'r pwyllgor ynglŷn â'r gwaith a oedd wedi digwydd. Yn ystod hanner cyntaf y flwyddyn, mae timau Trwyddedu a Safonau Masnach wedi rhoi cyngor ar gydymffurfiaeth Covid-19 ar 1451 o achlysuron, wedi cwblhau 1008 o arolygiadau cydymffurfiaeth Covid-19 ac wedi cynnal 1993 o asesiadau cydymffurfiaeth. Roedd modd cwblhau asesiadau o bell hefyd, a arweiniodd at gyfradd gydymffurfio o 93%. Roedd hon yn gyfradd ymateb ragorol ond mae'r 7% yn ymwneud â diffyg cydymffurfio, felly roedd yn rhaid gorfodi mewn rhai ardaloedd. Roedd 26 o rybuddion gwella safle wedi'u cyflwyno am ofynion Tracio ac Olrhain a fethwyd yn flaenorol. Mae 3 safle wedi'u cau o ganlyniad i waith gorfodi cudd ac ataliwyd trwydded safle 1 clwb nos am dri mis gan yr oedd yn gweithredu fel clwb nos yn ystod y cyfnod clo.

Cwblhawyd llawer o waith partneriaeth ac amlasiantaeth gyda Heddlu Gwent a phartneriaid eraill y Cyngor, gan gynnwys adrannau eraill yn y Cyngor. Trosglwyddodd cydweithwyr yn adran Iechyd yr Amgylchedd broblemau yr oeddent wedi dod o hyd iddynt mewn safleoedd busnes, a alluogodd y Tîm Safonau Masnach i ymweld â'r safleoedd hynny a gwneud gwaith gorfodi a rhoi rhybuddion. Roedd y Tîm Safonau Masnach hefyd wedi gweithio ar ymchwiliadau ymyrraeth a rhybuddion yn y cyfryngau o dwyll fasnachwyr. Mae hyn wedi rhoi pwysau ar waith arferol yr awdurdod lleol, felly mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi arian i bum swyddog i gefnogi gwaith gorfodi ac amddiffyn defnyddwyr.

Rhoddodd Rheolwr y Gwasanaethau Rheoliadol - yr Amgylchedd a'r Economi drosolwg o'i adran. Rhoddwyd yr wybodaeth ddiweddaraf i'r pwyllgor am rai o'r mesurau Ambr a Choch. -

**Pwynt 6 ar dudalen 25 – Rheoli Ansawdd Aer Lleol** - Mae rheolwr bellach wedi bod yn ei swydd am chwe diwrnod, felly bydd nawr yn dechrau gweithio tuag at yr amcanion corfforaethol. Bydd cyfarfod yn cael ei gynnal yn ddiweddarach y mis hwn â'r Prif Weithredwr i drafod y cynllun gweithredu, felly byddwn yn dechrau gweld gwelliannau ar hyn.

**Pwynt 8 ar dudalen 25 – Rheoleiddio busnes a chefnogi defnyddwyr/preswylwyr i ddiogelu a gwella iechyd** – Cafwyd y mwyafrif helaeth o'r gwaith rheoleiddio ei wneud mewn mannau eraill fel y trafodwyd yn flaenorol yn y cyfarfod, gan gynnwys cau llawer o safleoedd am gryn dipyn o amser a oedd yn golygu nad oedd busnes i'w reoleiddio. Ond roedd y gwasanaeth yn dal i allu ymateb i'r cwynion risg uchaf a fyddai'n deillio ohonynt.

**Pwynt 11 ar dudalen 26 – Gorchmynion Diogelu Mannau Agored Cyhoeddus (GDMACau)** – Mae gwaith yn mynd rhagddo ar hyn o bryd gyda'r mesur hwn, gyda gwybodaeth gychwynnol yn cael ei derbyn gan bartneriaid allweddol. Rydym yn awyddus i symud ymlaen drwy weddill yr hydref i ddechrau'r gaeaf.

Yna rhoddwyd gwybodaeth i'r pwyllgor am y gwaith Profi, Olrhain a Diogelu (POD) ac ymateb Iechyd yr Amgylchedd i Covid-19. Nid oedd y gwasanaethau POD yn bodoli tan fis Mehefin ac maent wedi dechrau gweithredu yn ystod y cyfnod hwn. Mae llawer o amser ac ymdrech wedi'u rhoi i sicrhau bod y broses honno ar waith. Penodwyd Keith Leslie o Iechyd yr Amgylchedd i arwain y tîm o tua 40 o ymgynghorwyr sy'n gwneud cynnydd da iawn. Mae'r holl wybodaeth a roddir yn ein galluogi i gyfeirio clystyrau at Dîm Iechyd yr Amgylchedd.

Gofynnodd yr Aelodau y canlynol -

- Diolchodd yr Aelodau i'r gwasanaeth am y gwaith rhagorol sy'n cael ei wneud yn ystod y cyfnod anodd hwn. Gwnaed sylwadau am gam gweithredu 11 – Gorchymyn

Diogelu Mannau Cyhoeddus, sy'n ymddangos fel Ambr. A yw'r oedi'n effeithio ar unrhyw beth o gwbl, ac a fydd yn dal yn ddilys yng nghanol y ddinas ac ym Mhilgwenlli?

Dywedwyd wrth yr Aelodau fod angen ailgyhoeddi GDMACau pan fyddant yn dod i ben a bod angen ymgynghori â'r holl randdeiliaid allweddol a bod angen dangos tystiolaeth o'r gorchymyn. Rydym ar y cam hwnnw ar hyn o bryd. Bydd Rheolwr y Gwasanaethau Rheoliadol (Rhys) yn cael yr wybodaeth gan y Pennaeth Gwasanaeth ac yn rhoi gwybod i'r pwyllgor.

- Mae'r Asiantaeth Safonau Bwyd bellach wedi llacio'r gofynion i awdurdodau lleol gynnal arolygiadau rhagweithiol a chydnabod yr adnoddau sydd eu hangen ar gyfer ymateb i Covid-19. A ddylem fod yn tynnu ein llygaid oddi ar safonau bwyd yn y sefyllfa hon?

  Dywedwyd wrth yr Aelodau mai dyma'r cyfeiriad cychwynnol a roddwyd tua dechrau'r haf ond ers hynny cafwyd amrywiaeth o ddiweddariadau gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd. Fodd bynnag, cydnabuwyd y pryderon y gallai fod rhai risgiau'n gysylltiedig â pheidio ag archwilio rhai busnesau bwyd

- Bu sylw ei bod yn ddealladwy bod rhai mesurau perfformiad yn Ambr o ystyried y sefyllfa y mae'r gwasanaeth yn cael ei roi ynddi. Gofynnodd yr Aelodau am y mesur perfformiad Ansawdd Aer a deallent fod ansawdd aer wedi gwella yn ystod y cyfnod hwn oherwydd gostyngiad yn swm y traffig. Yna gofynnwyd a oedd ansawdd aer yn cael ei fesur ledled Casnewydd ac nid Caerllion yn unig.

  Dywedwyd wrth yr Aelodau ei fod yn cael ei fesur ledled Casnewydd. Caiff ei fesur mewn dwy ffordd – tiwbiau goddefol a gorsaf fonitro maes awyr bwrpasol. Mae'r ddwy swyddogaeth hynny wedi'u cynnal, er na orfodwyd Swyddog Ansawdd Aer a Thir Halogedig penodol ers yn y gwanwyn. Dywedodd yr Aelodau y byddai'n ddefnyddiol gweld y data a gasglwyd pan fyddai pethau'n dychwelyd i'r arfer. Dywedwyd wrth yr Aelodau wedyn y byddai'r manylion yn cael eu cyfeirio at y Swyddog Gwyddonol. Dywedwyd wedyn bod ansawdd aer yn broblem integredig, nid un lleol yn unig, a'i fod yn cael effaith llawer mwy rhanbarthol. Bydd nifer o benderfyniadau eraill, nid traffig yn unig, yn effeithio ar y cwpl o flynyddoedd nesaf.

- Gofynnodd yr Aelodau am bwynt 21 ar dudalen 28 **– Llunio Strategaeth Toiledau Lleol yn unol â Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017** – Gyda chynifer o dafarndai a bwytai'n cael eu gorfodi i gau, a oes unrhyw syniadau sut i wneud iawn am ddiffyg y cyfleusterau hyn?

  Dywedodd yr Aelod Cabinet fod y Strategaeth Toiledau Lleol wedi'i drafftio gan hen Reolwr y Gwasanaethau Rheoliadol – yr Amgylchedd a'r Gymuned ar ôl ymgynghori drwy 2019 o ganlyniad i Ddeddf Iechyd Cyhoeddus Cymru. Caiff yr adroddiad hwn ei gyflwyno yng nghyfarfod y Cabinet ar 11 Tachwedd 2020. Mae'n rhwymo cynghorwyr yr awdurdod lleol i asesu'r angen am doiledau ac i fod yn arloesol ynghylch sut i'w darparu. Yna, dywedwyd wrth yr Aelodau nad yw'r ddeddfwriaeth toiledau a'r canllawiau sy'n gysylltiedig yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol ddarparu cyfleusterau'n uniongyrchol ond iddynt fod yn ymwybodol o sut y gellir eu darparu yn y dyfodol drwy ddatblygiadau gan weithio gyda phartneriaid.

- Gofynnodd yr Aelodau am bwynt 10 ar dudalen 19 – **i wella gwasanaeth y Crwner a sicrhau arbedion effeithlonrwydd** – a yw hyn yn dangos yr amgylchiadau enbyd y gallem fod ynddynt petai'r epidemig yn gwaethygu?

  Dywedodd yr Aelod Cabinet fod Gwasanaeth y Crwner bellach wedi'i leoli yn y Ganolfan Ddinesig. Mae'r gwasanaeth yn awyddus i aildrefnu swyddfeydd i roi lle iddo. Mae'r tîm wedi bod yn brysur iawn, felly roedd yn rhaid iddo gyflogi staff ychwanegol i helpu gyda chofrestriadau marwolaethau. O ganlyniad, mae newidiadau'n cael eu gwneud i roi mwy o gapasiti i'r gwasanaeth.

- Mae'r gwaith gorfodi Covid-19 wedi tarfu ar gryn nifer o gamau gweithredu, sef Camau Gweithredu Rhifau 7, 8, 14, 17 a 18. A oes unrhyw syniad pryd bydd y camau gorfodi COVID a ariennir gan grant yn cael eu cyflwyno, er mwyn rhyddhau swyddogion CDC fel y gallant barhau â'u dyletswyddau?

  Dywedwyd wrth yr Aelodau fod y grant yn cael ei roi am gyfnod o chwe mis, a fyddai'n digwydd o fis Hydref 2020. Dylai staff fod yn ôl yn eu rolau arferol yn fuan. Dechreuodd dau Swyddog Cydymffurfio y mae eu swyddi'n cynnwys archwilio busnesau, bythefnos yn ôl. Maent yn gyn-swyddogion yr heddlu ac maent eisoes wedi gwneud llawer o archwiliadau. Gan fod ganddynt sgiliau a rhinweddau wedi gweithio i'r heddlu ond dim gwybodaeth am ein rheoliadau, maent yn chwilio am broblemau i'r Cyngor ac yna'n anfon yr wybodaeth yn ôl at y swyddogion profiadol. Bydd hyn yn rhyddhau mwy o swyddogion i wneud mwy o waith twyll fasnachwyr. Gan ein bod yn nesáu at ddiwedd y cyfnod atal i'r rheoliadau, sy'n eithaf cymhleth, bydd gwaith yn cael ei wneud gyda'r heddlu a'n swyddogion i gynnal llawer o archwiliadau dros y pythefnos neu dair wythnos nesaf ac ym mis Rhagfyr, gan gynnwys gwaith amddiffyn defnyddwyr a thrwyddedu. Oni bai am y newid i'r rheolau, byddai'r gwaith hwn wedi bod yn digwydd yn awr.

- Gofynnodd yr Aelodau am Orchmynion Diogelu Mannau Cyhoeddus. Gyda phopeth wedi'i ohirio ar hyn o bryd, a yw'r rhain yn debygol o fod yn ôl ar waith yn y flwyddyn ariannol newydd?

  Dywedwyd wrth yr Aelodau mai'r bwriad yw gweithio ar y rhain.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Swyddogion am fod yn bresennol.

**<u>Pobl a Newid Busnes</u>**
Gwahoddedigion:
- Y Cynghorydd David Mayer - yr Aelod Cabinet dros y Gymuned ac Adnoddau
- Y Cynghorydd Deb Davies – yr Aelod Cabinet dros Ddatblygu Cynaliadwy – Materion sy'n ymwneud â Lles Cenedlaethau'r Dyfodol
- Rhys Cornwall - Pennaeth Pobl a Newid Busnes
- Tracy McKim - Rheolwr Polisi, Partneriaethau a Chynnwys
- Rachael Davies - Rheolwr Adnoddau Dynol a Datblygu Sefydliadol

Cyflwynodd yr Aelod Cabinet dros Adnoddau a'r Gymuned ei hun i'r pwyllgor, gan ganmol y swyddogion am ansawdd eu gwaith. Dywedwyd ei bod yn bleser cyflwyno'r adroddiad i'r pwyllgor gan ei fod o ansawdd uchel fel adroddiadau blaenorol y gwasanaeth hwn, ac unwaith eto canmolodd ei wasanaeth am fod ymhlith y gorau yng Nghymru, os nad y Deyrnas Unedig.

Cyflwynodd yr Aelod Cabinet dros Ddatblygu Cynaliadwy ei hun i'r pwyllgor, a dywedodd fod Amcan 1 yn yr adroddiad – Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol – yn dod dan ei phortffolio

hi, yn ogystal â'r Amcan 5 newydd, sef edrych ar nod y ddyletswydd economaidd-gymdeithasol a'r dull o'i gweithredu. Bwriedir iddi ategu'r Ddyletswydd Cydraddoldeb Sector Cyhoeddus a bwriadau Deddf Llesiant Chenedlaethau'r Dyfodol. Mae'r gwaith hwn wrthi'n cael ei ddatblygu ac mae angen ei orfodi erbyn mis Mawrth 2021. Yna dywedwyd bod cynnydd da iawn wedi'i wneud drwy gydol y pum mlynedd diwethaf ers ei weithredu a gallwn weld y gwaith hwnnw'n cael ei ddatblygu drwy ein Cynlluniau Corfforaethol a hefyd gyda'n Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Gallwn weld tystiolaeth o gynnydd a wnaed gyda'r adroddiadau blynyddol sydd wedi'u cyhoeddi a'r ddau adroddiad gan y bwrdd gwasanaethau cyhoeddus sydd ar gael i'r cyhoedd eu gweld.

Yna rhoddodd Pennaeth Pobl a Newid Busnes drosolwg o'r adroddiad. Dywedwyd bod pandemig Covid-19 wedi cael effaith ar y cynllun gwasanaeth. Mae'n gynllun gwasanaeth treigl yn awr, sydd bellach wedi'i roi mewn proses cynllun gwasanaeth pum mlynedd, sy'n cael ei diweddaru a'i haddasu yn ystod y cyfnod hwnnw er mwyn cyflawni'r Cynllun Corfforaethol hyd at 2022. Mae'r adroddiad hefyd wedi ystyried y Nodau Adfer Strategol y mae'r Cyngor wedi'u rhoi ar waith er mwyn dileu'r effaith rydym yn ei hwynebu.

Esboniodd y Pennaeth Gwasanaeth fod y tanwariant yn y gyllideb yn ymwneud yn bennaf ag effaith Covid-19, sy'n cynnwys cyllideb Datblygu Sefydliadol, gan fod y gwasanaeth yn talu am lawer o hyfforddiant i staff. Oherwydd Covid-19, bu'n rhaid i'r gwasanaeth ddod o hyd i ffyrdd newydd o gynnal hyfforddiant felly mae'r gost wedi lleihau'n sylweddol. Nid yw llawer o ddatblygiadau wedi gallu digwydd dros y chwe mis diwethaf gan fod llawer o broblemau TG wrth sicrhau bod y Cyngor yn gallu gweithio o bell. Mae'r gwasanaeth hefyd yn arwain gwaith risg a pherfformiad ac ar hyn o bryd mae'n delio â risgiau mawr, a ddangosir yn y Gofrestr Risgiau. Covid-19 sydd â'r sgôr risg uchaf ac eir i'r afael ag ef trwy waith amlasiantaeth.

Yna rhoddodd y Pennaeth Gwasanaeth gyngor ar y tri maes sydd â'r risg uchaf –
**Seiber-ddiogelwch** – Ar ddechrau'r cyfnod clo pan oedd nifer o swyddogion wedi dechrau gweithio gartref, cafodd y Cyngor hysbysiad cenedlaethol o'r risg gynyddol o ran seiber-ymosodiadau, felly rhoddodd y gwasanaeth nifer o fesurau lliniaru ar waith i'n hamddiffyn rhag hynny. Roedd y gwasanaeth hefyd wedi galluogi gweddill y sefydliad i weithredu oherwydd paratoi effeithiol. O fewn tri diwrnod i'r cyfnod clo cenedlaethol, roedd 1,200 o aelodau o staff yn gweithio gartref. Oherwydd buddsoddiadau blaenorol a oedd yn rhan o rai o'r penderfyniadau strategol a wnaed, rhoddwyd gliniaduron i 85 o aelodau o staff i fynd adref â nhw. Roedd systemau eisoes wedi'u sefydlu i weithio o bell ac yn ddiogel, ac roedd Office 360 a oedd â chyfleusterau fel Teams hefyd wedi'u cynnwys, felly roedd y Cyngor eisoes mewn sefyllfa dda.
Yna, dywedodd y Pennaeth Gwasanaeth fod y Tîm Iechyd a Diogelwch wedi chwarae rhan hollbwysig yn y gwaith o gefnogi'r sefydliad a'n hysgolion ac o sicrhau cydymffurfiaeth â rheolau Covid-19 er mwyn sicrhau ein bod yn cadw ein staff, ein pobl a'n defnyddwyr gwasanaeth yn ddiogel. Gwnaeth y Tîm Argyfyngau Sifil, sy'n cael ei arwain gan y Rheolwr Polisi, Partneriaethau a Chynnwys, lawer o'r gwaith hwn gyda'i gilydd gan weithio'n eithriadol o galed a gweithio hefyd gyda'r Fforwm Lleol Cymru Gydnerth Gwent.

Yna, dywedwyd wrth y pwyllgor fod 13 o fesurau ambr a 2 fesur coch ar waith. Mae cyfres o fesurau Ambr sy'n ymwneud â bwrw ymlaen â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol o fewn y sefydliad ynglŷn â pheth gwaith y mae'r Tîm Argyfyngau Sifi yn ei wneud i'r sefydliad ac o ran rheoli risg. Roedd llawer o adnoddau ar gyfer pethau fel gwaith cyfathrebu ac integreiddio wedi cael eu hailgyfeirio ar gyfer cynnal gweithgareddau yn erbyn Covid-19. Mae mesurau Ambr eraill yn deillio o'r ffaith bod y gwasanaeth yn cael ei ailstrwythuro ar hyn o bryd, sydd wedi cymryd mwy o amser oherwydd pandemig Covid-19. Dechreuodd y broses ailstrwythuro cyn y cyfnod clo ac mae'n parhau.

Yna, soniodd y Pennaeth Gwasanaeth yn fyr am y mesurau Coch, y mae un ohonynt yn ymwneud â Llywodraethu. Sicrhawyd yr Aelodau fod trefniadau llywodraethu ar waith ym mhob rhan o'r prosesau newid. Mae Penaethiaid Gwasanaeth yn gyfrifol am newid o fewn y gwasanaethau y rhoddir gwybod amdano drwy'r cynlluniau gwasanaeth, ond mae'r mesur

hwn wedi'i ohirio ychydig. Mae'r Mesur Coch arall yn ymwneud â materion gweithlu cynrychioliadol. Dywedwyd wrth yr Aelodau nad oes gennym weithlu o hyd sy'n cynrychioli'r cymunedau y mae'n eu gwasanaethu, felly mae gennym raglen waith i'n galluogi i symud ymlaen gyda hyn.

Gofynnodd yr Aelodau y canlynol -

- Gwnaeth yr Aelodau sylwadau ynghylch newidiadau parhaus mewn polisïau cenedlaethol fel ffyrlo. A yw'n creu heriau cynllunio o ran y swyddogaeth Adnoddau Dynol ac a yw wedi effeithio ar lawer o'n staff?

  Dywedwyd wrth yr Aelodau fod y cynllun ffyrlo wedi effeithio ar nifer hynod fach o'n staff oherwydd ein bod wedi parhau i gyflogi ein holl staff. Roedd modd adleoli rhai aelodau o staff i adrannau eraill. Roedd tua 1200 o aelodau o staff yn gweithio gartref o fewn ychydig ddyddiau i'r pandemig ddechrau ac roedd llawer o aelodau eraill o staff yn gallu cyflawni eu dyletswyddau mewn mannau ar wahân i'w swyddfeydd. Yna dywedwyd wrth yr Aelodau fod y newid parhaus mewn polisïau a chynlluniau ynghylch cymorth busnes wedi ei gwneud yn ofynnol i'r gwasanaeth weithredu'n effeithiol a defnyddio mwy o adnoddau i wneud pethau'n wahanol.

- Roedd yr Aelodau'n deall pam roedd mesurau Ambr a Choch yn yr adroddiad o ystyried y sefyllfa rydym yn ei hwynebu ar hyn o bryd.

- Soniwyd am y ffigur o tua 1200 o staff yn gweithio gartref, sef tua thraean o'r gweithlu. A yw'r rhai nad ydynt yn gweithio gartref ar y cynllun ffyrlo?

  Dywedwyd wrth yr Aelodau fod tua 2000 o aelodau o staff nad ydynt yn gweithio mewn ysgol. Nid yw pob un o'r tua 1200 o staff bellach yn gweithio gartref. Y gyfarwyddeb ar y pryd ar gyfer y staff hynny a allai weithio gartref oedd y dylent wneud hynny. Felly anfonwyd pawb adref bryd hynny ac roedd y Cyngor yn parhau i weithredu. Y staff eraill yw'r rhai sy'n gweithio yn y Gwasanaethau Cymdeithasol a Gwasanaethau'r Ddinas. Tawelwyd meddyliau'r staff hynny nad oeddent yn gallu cyflawni eu dyletswyddau gartref eu bod yn gweithio mewn amgylchedd diogel.

- Gofynnodd yr Aelodau am y sylwebaeth ar bwynt 14 ar dudalen 64 yr adroddiad a oedd yn nodi "Yn ogystal, bydd creu dull sy'n seiliedig ar benderfyniadau i ymdrin â gwrthdaro yn disodli'r polisïau disgyblu a chwyno a yrrir gan brosesau". Mae hyn yn ymddangos fel Mesur Gwyrdd er mai dim ond 20% oedd wedi'i gyflawni. A oes unrhyw gynnydd pellach ar hyn?

  Dywedodd y Rheolwr Adnoddau Dynol a Pholisi fod angen cadw rhai polisïau megis cwyno a disgyblu'n broses ffurfiol, ond mae'r gwasanaeth yn credu bod ffyrdd eraill ar gael o lunio polisi datrys gwrthdaro sy'n ymwneud â thrin y ddwy ochr â pharch, nodi'r problemau a sut y gellir eu datrys yn anffurfiol neu yn y ffordd symlaf posibl, a gallu symud ymlaen mewn ffordd bragmatig ac aeddfed. Ar hyn o bryd, yr unig ddewis sydd ar gael yw mynd â phobl drwy broses ffurfiol hir a chostus sy'n peri straen i'r unigolion a'r timau cysylltiedig. Ar hyn o bryd maent yn edrych ar ddull tebyg i'r hyn sy'n cael ei ddefnyddio mewn ysgolion ar gyfer cyfiawnder adferol.
  Mae'r mesur hwn yn ymddangos fel Mesur Gwyrdd oherwydd ei fod ar y trywydd iawn ar hyn o bryd o ran ble mae'r gwasanaeth yn dymuno bod mewn perthynas â'r dyluniad a'r datblygiad.

- Roedd y Pwyllgor yn falch o nodi y bu ymgysylltu ag addoldai. Gofynnwyd a fyddai ymgysylltu â phob addoldy?

Ni wyddys a fyddai'n cynnwys pob addoldy, ond byddai hyn yn cael ei gadarnhau. Ymgysylltwyd â mosgiau ac eglwysi ynghylch diogelwch a disgwyliadau. Atgoffwyd yr Aelodau fod y gwaith hwn wedi'i wneud yn ystod hanner cyntaf y flwyddyn, ac mae gwaith yn parhau drwy gydgysylltu ag arweinwyr eglwysi, arweinwyr cymunedol ac addoldai. Yna rhoddwyd cyd-destun i'r Aelodau o ran trafodaethau ar y cyfryngau cymdeithasol sy'n honni bod eglwysi a mosgiau'n agor pan nad oeddent wedi gwneud hynny mewn gwirionedd. Tîm y Rheolwr Polisi, Partneriaethau a Chynnwys – Swyddogion Cydlyniant Cymunedol sy'n gyfrifol am yr ymgysylltu.

- Mae Risg Gorfforaethol Achosion Pandemig COVID-19, Brexit a Seiber-ddiogelwch i gyd yn ymddangos fel Mesurau Coch – Tebygolrwydd uchel ac effaith uchel. Pa fesurau lliniaru sydd ar waith i leihau effaith ar adnoddau a gallu'r gwasanaeth i gyflawni ei amcanion?

  Dywedwyd wrth yr Aelodau fod y rhain yn ymddangos yn goch pan fyddant yn cyrraedd trothwy penodol. Rhoddodd y Pennaeth Gwasanaeth yr wybodaeth ddiweddaraf am y tri mesur Coch:
  **Seiber-ddiogelwch** – Mae llawer o waith wedi'i wneud fel sefydliad dros y pedair neu bum mlynedd diwethaf sydd wedi'i arwain gan MB. Mae lefel ychwanegol o ddiogelwch ar gyfer y sefydliad wedi'i chaffael sy'n cael ei gweithredu ar hyn o bryd, felly bydd hyn yn lleihau'r risg.
  **Brexit** – Mae'r effaith ar y gwasanaeth yn ymwneud yn bennaf a'r offer TG sydd ar gael. Mae'r rhyfel masnach rhwng UDA a Tsieina wedi effeithio ar gydrannau sy'n mynd allan o UDA a Tsieina i weithgynhyrchwyr. Mae effaith arall yn ymwneud â chyfathrebu, felly mae'r gwasanaeth wedi bod yn gwneud llawer o waith i annog pobl i wneud cais am statws preswylio'n sefydlog. Caiff adroddiad am Brexit ei gyflwyno i'r Cabinet yr wythnos nesaf.
  **COVID-19** – Mae llawer o waith wedi'i wneud gyda Chydlyniant Cymunedol. Y gwasanaeth sy'n arwain gwaith Covid a nodwyd bod gwydnwch yn broblem hefyd, gan fod gan y Cyngor sylfaen staff isel o'i chymharu ag awdurdodau lleol o faint tebyg. Roedd yn rhaid i lawer o staff weithredu mewn gwahanol ffyrdd. Yna canmolodd y Pennaeth Gwasanaeth bob rhan o'r gwasanaeth am y gwaith caled y mae wedi'i wneud yn ystod y pandemig, o sicrhau bod gan staff y TG a'r offer cywir i olrhain cysylltiadau.
  Dywedodd y Pennaeth Gwasanaeth hefyd i'r gwasanaeth gynnal sesiwn Ymwybyddiaeth Ofalgar 40 munud drwy Microsoft Teams yr wythnos diwethaf i helpu i ofalu am staff. Canmolwyd perfformiad gwaith gorfodi ac olrhain cysylltiadau hefyd.

- Cam Gweithredu Rhif 2, tudalen 65 - "**Helpu'r Cyngor i ddatblygu trefniadau llywodraethu cadarn sy'n monitro'r gwaith o gyflawni rhaglenni a phrosiectau strategol sy'n cyd-fynd â phrosesau cyllid, Adnoddau Dynol, cynllunio, perfformiad a rheoli risg y Cyngor**." A oes unrhyw syniad pryd y bydd hyn yn dechrau y flwyddyn nesaf, neu a yw'n ddibynnol ar y pandemig?

  Dywedwyd wrth yr Aelodau fod dyheadau o ran sut bydd hyn yn teimlo. Mae Paul Flint wedi gwneud gwaith da iawn i ddatblygu'r system rheoli perfformiad. Roedd y gwasanaeth wedi dechrau ailstrwythuro'r tîm hwnnw, ar ôl cwblhau hyn bydd modd i'r gwasanaeth gymryd y camau nesaf. Mae gobaith y bydd hyn mewn sefyllfa well ar ddiwedd y gwanwyn.

- Bu ymholiad am Ddemocratiaeth – 20 o bethau i'w gwneud erbyn 2020. Faint o'r rhain y gwnaeth y Cyngor eu cyflawni?

Dywedwyd wrth y pwyllgor fod rhai wedi'u cwblhau, ond y rhoddir yr wybodaeth lawn i’r pwyllgor yn fuan.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Aelod Cabinet a’r swyddogion am fod yn bresennol.

**Casgliad yr Adroddiadau**
**Y Gyfraith a Rheoleiddio**

- Roedd y pwyllgor yn gwerthfawrogi'r gwaith caled y mae swyddogion ar bob lefel wedi'i wneud yn ystod y pandemig gan lwyddo i gadw pethau i fynd. Dywedodd y pwyllgor fod mesurau Ambr yn ganlyniad da o ystyried y sefyllfa.

- Dywedodd yr Aelodau y byddai'n ddefnyddiol casglu data ar gyfer y gwelliannau mewn ansawdd aer yn y ddinas ac yr hoffent weld hyn mewn adroddiadau yn y dyfodol.

- Roedd yr Aelodau'n falch y bydd adroddiad y strategaeth toiledau lleol yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet cyn bo hir, gan fod pryderon am y diffyg darpariaethau sydd ar gael gyda llawer o dafarndai a bwytai'n cau.

**Pobl a Newid Busnes**

- Croesawodd yr Aelodau natur fanwl y sylwebaeth.

- Canmolodd yr Aelodau y gwaith caled y mae swyddogion ar bob lefel wedi'i wneud yn ystod y pandemig gan lwyddo i gadw pethau i fynd ac roeddent yn hynod ddiolchgar bod y gwasanaeth wedi gallu trefnu gweithio o bell i'r gweithlu mewn cyfnod mor fyr.

- Roedd y Pwyllgor yn falch y bu ymgysylltu ag addoldai. Gofynnwyd a fyddai ymgysylltu â phob addoldy.

- Bu ymholiad am Ddemocratiaeth – 20 o bethau i'w gwneud erbyn 2020. Faint o’r rhain y gwnaeth y Cyngor eu cyflawni?

Daeth y cyfarfod i ben am 7.00 pm

Daeth y cyfarfod I ben am 7.00 pm